# GTB Hosbisau a Gofal Lliniarol 20 Ionawr 2021, 8:30-9:30

# CPG Hospices and Palliative Care 20 January 2021, 8:30-9:30

## Cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a dull trugarog yn ystod COVID-19: gwersi i Gymru Garedig? (Cynhaliwyd dros Zoom)

## Cofnodion | Minutes

### Yn bresennol | Attendance

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AS, (Cadeirydd) | Rhun ap Iorwerth AS |
| Dr Dai Lloyd AS | |

| | |
|---|---|
| Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith | Janette Bourne, Cruse Bereavement |
| Bethan Edwards, Marie Curie Cymru | Jo Oliver, BHF Cymru |
| Catrin Edwards, Hospice UK (Ysgrifennydd) | Laura Hugman, Hosbis yn y Cartref Paul Sartori |
| Ceridwen Hughes, Same but different | Lesley Bethell, Cadeirydd Cymru Garedig |
| Chris Campbell, Canolfan Gymunedol Thornhill | Liz Andrews, Hosbis y Ddinas |
| Dan Steer, Together for Short Lives | Patience Bentu, Race Council Cymru |
| Deborah Ho, Tŷ Hafan | Rahila Hamid, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig |
| Dominic Carter, Hospice UK | Shabir Hussain, Cyngor Dinas Casnewydd |
| Emma Saysell, St Davids Hospice Care | Sian Guest, MNDA Cymru |
| Fiona McDonald, MS Society | Tom Davies, Macmillan Cymru |
| Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd | Tracy Jones, Tŷ Hafan |
| Y Parchedig Hadassah Radway, BHM | Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant |
| Hazel Cryer, ACE | Yr Athro Uzo Iwobi, Race Council Cymru |
| Iain Mitchell, Hosbis St Kentigern | Wendy Hobbs, Dreams and Wishes |
| Iwan Hughes,<br>y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol | |

### Ymddiheuriadau | Apologies

| | |
|---|---|
| Helen Mary Jones AS | Llyr Gruffydd AS |

### Croeso a chofnodion y cyfarfodydd diwethaf | Welcome and minutes from the previous meeting

Cafodd cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol ar 23 Medi 2020 a'r cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol ar 26 Tachwedd 2020 eu rhannu.

Company Limited by Guarantee, Registered in England and Wales No. 2751549,
Charity registered in England and Wales No. 1014851 and in Scotland No. SC041112. VAT No. 731 304476.

Cafwyd cadarnhad gan Janette Bourne fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfodydd. Eiliwyd hyn gan Tracy Jones.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwaith presennol

Cyflwynodd Catrin Edwards bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffocws Cymru Garedig a'r flaenraglen waith gysylltiedig.

Oherwydd y pandemig COVID-19, cytunodd y Cadeirydd a'r aelodau ar ffocws diwygiedig ar gyfer gwaith y grŵp trawsbleidiol ar raglen Cymru Garedig, sef pa rôl y gall y rhaglen hon gan Lywodraeth Cymru ei chwarae wrth adeiladu capasiti a gwydnwch mewn Cymunedau Caredig yn ystod y pandemig COVID-19 a thu hwnt.

I lenwi bylchau mewn gwybodaeth a thystiolaeth, mae'r cynllun gwaith wedi'i ymestyn. Mae hyn yn caniatáu i'r grŵp trawsbleidiol glywed gan gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, sydd yn aml yn wynebu diffyg o ran gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol. Penderfynwyd bod ymdrin ag anghydraddoldeb o ran effaith y pandemig COVID-19 ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng nghyd-destun dulliau 'Cymru Garedig' yn flaenoriaeth, o gofio gwaith y grŵp trawsbleidiol i bwysleisio anghydraddoldeb o ran mynediad at ofal lliniarol - anghydraddoldeb sydd o bosibl wedi cynyddu yn ystod y pandemig.

Trefnwyd cyfarfod ychwanegol ar gyfer 4 Mawrth. Caiff argymhellion cychwynnol o waith y grŵp trawsbleidiol eu rhannu yn y cyfarfod hwn.

## Sicrhau bod gwasanaethau profedigaeth Cruse yn gynhwysol ac yn hygyrch – Janette Bourne

Gall y cyhoedd gael mynediad at wasanaethau Cruse drwy'r wefan (sy'n cynnwys manylion cyswllt swyddfeydd ledled Cymru); drwy ei rif ffôn am ddim, sef 0808 808 1677; neu drwy Cruse Chat ar-lein.

Fel y disgwyliwyd, o gofio'r cynnydd mewn marwolaethau yn ystod 2020, mae Cruse wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd ato ers dechrau'r pandemig. Mae Cruse yn cael 12,000 o alwadau yr wythnos, ac mae Cruse Chat wedi cael 2,000 o gysylltiadau bob mis ers dechrau'r pandemig.

Mae adolygiad allanol yn cael ei gynnal ynghylch y ffordd y mae gwasanaethau Cruse yn ymgysylltu â gwahanol gymunedau, gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff.

Mae gwasanaethau Cruse eisoes ar gael i bawb, beth bynnag ei gefndir, ac mae'r sefydliad yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch. Rhoddwyd enghraifft o gleient yng Nghaerdydd sy'n siarad Ffarsi fel iaith gyntaf, a bod y cleient hwn wedi cael cymorth gan wirfoddolwr o Abertawe oedd yn gallu cyfathrebu yn newis iaith y cleient.

Nododd Mark Isherwood fod y sefydliad yn annog ceisiadau gan wirfoddolwyr o ystod o gymunedau, gyda'r nod o wneud y gwasanaethau'n fwy hygyrch i bawb.

## Yr Athro Uzo Iwobi, Race Council Cymru

Mae Race Council Cymru yn arwain pum canolfan ddiwylliannol ledled Cymru, gyda phob canolfan yn gartref i fwy na 22 o wahanol gymunedau ethnig. Hyd yma, nid yw'r fenter Cymunedau Caredig, o dan faner Cymru Garedig neu unrhyw faner arall, wedi ymgysylltu'n weithredol â'r cymunedau sydd wedi'u cynrychioli yn y canolfannau hyn.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae colledion wedi cynnwys Hynafgwyr Windrush, fel Donna Campbell, yn ogystal â cholledion sylweddol ymhlith cymunedau eraill o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd

ethnig, yn enwedig pobl sy'n gweithio ar y rheng flaen ym maes iechyd a gofal. 'Mae'r galar a rennir yn amlwg'.

Nid yw pobl o gefndiroedd amrywiol yn ymwybodol o wasanaethau fel gofal yn ystod profedigaeth a gynigir gan sefydliadau cenedlaethol. Mae hyn yn golygu bod y bobl hyn yn llai tebygol o gael cymorth gan y gwasanaethau hyn, yn enwedig yn ystod y pandemig, pan fo mwy o alw amdanynt a phan fo cymorth gan deuluoedd wedi'i gyfyngu.

O ganlyniad, mae cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu'r gwaith y maent eisoes yn ei wneud yn y gymuned fel ffordd drugarog o ymateb i heriau penodol y pandemig.

Ar ddechrau'r pandemig, sefydlodd Uzo grŵp WhatsApp i gefnogi arweinwyr cymunedol wrth iddynt hwythau, yn eu tro, gefnogi eu cymunedau.

## Y Parchedig Hadassah Radway

Mae llawer o bobl o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu galar ar adeg pan maent yn bell i ffwrdd o'u teuluoedd, yn enwedig pobl nad ydynt yn hanu o Gymru. Mae llawer o bobl yn dal i fod 'gartref yn eu meddyliau' ac mae arferion diwylliannol yn sicr yn fyw iawn iddynt.

Bydd cyfyngiadau ar gynulliadau cymdeithasol yn effeithio ar bob person yng Nghymru sy'n galaru, ond mae'r cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Fel arfer, gallai cartref teulu sy'n wynebu profedigaeth fod yn llawn ymwelwyr am ddyddiadau, gyda phobl yn dod â bwyd fel anrheg i roi cysur a dangos cefnogaeth. Byddai angladdau, neu 'ddigwyddiadau dychwelyd adref' a 'dathliadau o fywyd', yn gynhwysol ac yn bersonol. Mae COVID-19 wedi amharu ar hyn, gan achosi i deuluoedd deimlo eu bod wedi'u hynysu oherwydd effaith ddwbl profedigaeth a'r ffaith nad ydynt yn gallu dilyn y defodau diwylliannol sy'n gysylltiedig â galaru.

Mae hyn wedi cael effaith bersonol yn sgil marwolaeth brawd y Parchedig Radway yn ystod y pandemig, a oedd yn golygu bod ei mam yn galaru am ei hunig fab ar ben ei hun.

Mae technoleg wedi helpu llawer o bobl, ond nid pawb. Mae galwadau ffôn wedi dod yn bwysicach nag erioed, yn enwedig wrth gadw mewn cysylltiad â'r genhedlaeth hŷn.

Er ei bod yn croesawu gwahoddiad y grŵp trawsbleidiol i gyfrannu, eglurodd y Parchedig Radway nad yw cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi'u cynnwys yn y prosiect Cymunedau Caredig yng Nghymru nac yn ymchwiliad y grŵp trawsbleidiol o'r cychwyn cyntaf. Dywedodd fod y cymunedau hyn dim ond wedi'u cynnwys yn hwyrach.

Nododd Rahila Hamid effaith debyg ar y cymunedau y mae hi'n eu cefnogi yn ardal Casnewydd.

## Chris Campbell

Wrth weithio gyda chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ledled Torfaen, mae Chris yn dilyn tri cham, sef: empathi, caredigrwydd a chamau gweithredu trugarog. Dywedodd fod COVID wedi rhoi cymunedau o dan y chwyddwydr, ond nid o reidrwydd hil. O ran effaith COVID-19 ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, nododd Chris fod y cymunedau hyn wedi'u difrodi.

Mae Chris wedi ymgysylltu â'i gymuned drwy gydol y pandemig, gan nodi nad oedd y parseli bwyd a ddarparwyd gan rai awdurdodau lleol ar gyfer teuluoedd a oedd yn hunanynysu neu'n destun camau gwarchod yn addas ar gyfer rhai teuluoedd o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. O gofio hyn, cafodd parseli bwyd addas o ran diwylliant eu trefnu drwy'r

gymuned. Ar ôl gwneud y gwaith paratoi hwn yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roedd y parseli hyn yn barod ar gyfer yr ail gyfnod clo. Cafodd y gwaith ei gefnogi drwy godi £2,500, gyda chymorth gan Race Council Cymru a Sefydliad Cymunedol Cymru.

O ran prosiect Cymunedau Caredig a rhaglen Cymru Garedig, nododd Chris mai nhw yw'r gymuned, ond nid yw Cymunedau Caredig wedi ymgysylltu â nhw i gynnig cymorth. Mae'r canolfannau diwylliannol a gynigiwyd gan Race Council Cymru yn un ffordd o greu cysylltiadau gwell â chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

## Patience Bentu

Mae deall cymunedau amrywiol yn rhan bwysig o integreiddio cymunedau.

Mae'r materion a ffactorau penodol sy'n effeithio ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn perthynas â COVID-19 fel a ganlyn:

- Mae llawer o bobl o'r Philipinau a oedd yn weithwyr rheng flaen ym maes iechyd a gofal wedi marw. Mae nifer o blant amddifad wedi cael eu rhoi mewn gofal ers dechrau'r pandemig, gyda nifer ohonynt yn mynd at deuluoedd maeth sydd ddim yn gallu cynnig cartref sy'n addas yn ddiwylliannol.
- Mae'r gymuned Tsieineaidd wedi colli llawer o'i haelodau ac wedi wynebu cynnydd mewn hiliaeth.
- Mae nifer uchel y teuluoedd yn y gymuned pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw mewn cartrefi aml-genhedlaeth yn golygu bod gwarchod aelodau bregus o'r teulu yn anodd.
- Nid yw'r unigolion sy'n marw mewn ysbytai a hosbisau bob amser yn cael cyfle i gadw at ddefodau fel ag y byddent yn dymuno.
- Mynegwyd pryderon nad yw teuluoedd yn cael gwybod am farwolaeth perthynas os nad yw'r teulu'n byw yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig.

Mae'n rhaid cael gwasanaethau wedi'u teilwra i gefnogi pobl o gymunedau amrywiol, yn enwedig cymorth ynghylch iechyd meddwl. Nid yw gwasanaethau'r brif ffrwd bob amser yn diwallu anghenion, nid yw'r cymunedau perthnasol bob amser yn ymwybodol ohonynt neu nid yw pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig bob amser yn cael profiad sy'n arwain iddynt feddwl bod y gwasanaethau hyn yn hygyrch iddynt.

Byddai gwasanaethau wedi'u cyd-gynhyrchu yn ffordd bosibl ymlaen.

## Trafodaeth

### Gofal sy'n briodol yn ddiwylliannol i bobl sy'n marw mewn ysbytai a hosbisau

Nododd Rahila Hamid y dylai caplaniaid mewn ysbytai fod yn ymwybodol o ddefodau penodol sy'n gysylltiedig ag ystod o ddiwylliannau a chrefyddau.

Nododd Janette Bourne y dylai pob ysbyty fod â swyddfa brofedigaeth a fyddai'n gallu cyfeirio at wasanaethau.

Ychwanegodd Mark Isherwood y bydd hosbisau am recriwtio gwirfoddolwyr o gymunedau amrywiol i gynnig cymorth sy'n briodol yn ddiwylliannol i'r holl bobl mewn dalgylch penodol.

### Mynediad at ofal yn ystod profedigaeth i bobl o gymunedau amrywiol

Pwysleisiodd Liz Andrews fod rhai hosbisau, gan gynnwys Hosbis y Ddinas yng Nghaerdydd, wedi cynyddu eu darpariaeth yn ystod profedigaeth fel bod y gwasanaeth ar gael i bob un sy'n wynebu profedigaeth yn y dalgylch (gan gynnwys rhai ardaloedd yn Rhondda Cynon Taf), nid dim ond y bobl sydd â pherthynas sydd wedi cael gofal gan yr hosbis.

- Bydd Catrin Edwards yn anfon nodyn at PB, UI, HR, CC a RH i grynhoi'r cymorth yn ystod profedigaeth a roddir gan bob hosbis yng Nghymru.

Awgrymodd Patience Bentu fod cyfle posibl i wasanaethau fel Cruse gael eu lleoli mewn canolfannau cymunedau, neu fod eu gwasanaethau'n cael eu hysbysebu yn y canolfannau hyn.

- Janette i gysylltu â PB.

Nododd Janette Bourne y dylai pob meddyg teulu fod yn ymwybodol o Cruse, ond mae'n bosibl y bydd angen eu hannog i gyfeirio pobl mewn angen at y gwasanaeth.

Gofynnodd Wendy Hobbs a yw gwasanaethau Cruse ar gael i deuluoedd o'r grŵp 'Beautiful Smiles', sy'n rhan o fudiad Dreams and Wishes ac sydd heb gael cyfle i gwrdd ers cyn y cyfnod clo. Cafwyd cadarnhad gan JB y byddai Cruse yn gallu cynnig cymorth.

**Cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a Chymru Garedig**

Cafwyd cadarnhad gan Lesley Bethell mai un o brif nodau Cymru Garedig yw cefnogi pob cymuned ledled Cymru.

- LB i gysylltu â'r holl arweinwyr perthnasol i ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen.

Nododd Catrin Edwards fod gwaith ymchwil ar ddulliau cymunedau caredig mewn hosbisau yng nghyd-destun cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn awgrymu mai ffordd bosibl ymlaen yw datblygu grwpiau llywio neu grwpiau cynghorol sydd wedi'u harwain gan bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Cytunodd Patience Bentu ac eraill fod y syniad hwn yn cynnig ffordd bosibl ymlaen.

## Unrhyw fusnes arall | Any other business

Nododd Mark Isherwood y bydd yn arwain dadl yn y Senedd ar ofal lliniarol a phrofedigaeth yn ystod y pandemig yn yr wythnosau nesaf. Gwahoddodd unrhyw un a oedd yn bresennol i rannu gwybodaeth am y materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod i helpu i lywio'r ddadl.

- Bydd Catrin Edwards yn cynnwys materion a drafodwyd yn y cyfarfod mewn papur briffio ar gyfer Mark Isherwood.

## Cyfarfodydd nesaf | Next meetings

4 Mawrth 2021, 12-13:30 drwy Zoom